

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Mr Ifor Jones, Dilwyn, Geraint a Merfyn a gweddill y teulu ym marwolaeth Mrs Mair Jones (Nantglyn) y penwythnos diwethaf. Yr ydym yn ymwybodol o'r golled fawr sy'n cael ei theimlo ar yr aelwyd ac yn gweddïo y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.
- Parhawn i gofio am Beryl Jones (Nantglyn) a Kitty Parry (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Diolchwn i Dduw am y ddwy wraig yma, gan hyderu y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Dymunwn yn dda i Lowri Davies (Cefn Meiriadog) a Roger Jones fydd yn priodi yng Nghefn Meiriadog dydd Sadwrn nesaf. Bendithion lu iddynt i'r dyfodol.

Sul y Fro – Canolfan Mari Jones, Llanycil

Os ydych chi am ymuno â ni i ymweld â Chanolfan Byd Mari Jones dydd Sul, Mehefin 28ain (Sul y Fro), wnewch chi roi eich enw i Ysgrifennydd eich eglwys **HEDDIW (Mehefin 21ain) fan bellaf**, os gwelwch yn dda? (*Ysgrifenyddion: wnewch chi anfon y niferoedd ymlaen i Mair HENO, os gwelwch yn dda?*) Mae'r Ganolfan angen gwybod ymlaen llaw y nifer fydd yn mynd yno. Pris mynediad – Oedolion: £3.00; Plant 5–16 oed: £2.50; Plant iau na 5 oed: am ddim.

Derbyn yn Aelodau

Mae'r sesiynau ar fin dechrau ar gyfer yr ieuencid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch ag Aneurin, Rhodri neu Mair ar fyrder, os gwelwch yn dda. Mae grŵp caeëdig wedi ei greu ar Facebook a bydd y criw sydd wedi dangos diddordeb yn cael gwahoddiad i ymuno yn y dyddiau nesaf er mwyn trefnu amser cyfleus i gyfarfod.

I ddod

- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Bethania, Rhuthun dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd. Pwyllgor Gwaith am 3.00, gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, ac oedfa gyhoeddus am 7.00 pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch, a blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio.
- **DIWRNOD BACH I'R BRENIN MAWR** yn Nant Gwrtheyrn dydd Sadwrn, Gorffennaf 4ydd o 10.30 – 4.00. Rhywbeth i bawb o bob oed – Ffydd, Beibl, Hwyl, Gwirionedd, Cerddoriaeth, Mawl. Mwy o wybodaeth ar: www.annibynwyr.org.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA: CWRS IEUENCTID (BL.7-11)** Gorff. 27ain – 31ain; **ANRHEFN AWST (8-12 oed)** Awst 10fed –13eg; **SOULED OUT (oed 15+)** Awst 15fed –20fed. Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Mehefin 2015

Darlleniad y Dydd

Barnwyr 2:1-5

(BCND tud.222 / BCN: tud.202)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Helo a chroeso i oedfaon y dydd heddiw. Efallai eich bod wedi cael cipolwg cyflym ar waelod y dudalen hon a sylwi nad Aneurin na Rhodri sydd wedi ysgrifennu'r pwt hwn ond Gwilym. Gwaetha'r modd nid Gwilym Hiraethog sydd yma, ond Gwilym Tudur o Gaerdydd ydw i. Dwi wedi mentro o'r ddinas fawr i wneud cyfnod o brofiad gwaith gyda'r tîm yma yng ngofalaeth Bro Aled. Mae'n braf iawn cael bod yma – lle sy'n enwog am nifer o bethau. Mae'n enwog am ei golygfeydd hyfryd, ei diwylliant amaethyddol, ond yn bennaf oll, mae'n enwog am y ffordd mae Duw wedi gweithio yn rymus yn yr ardal trwy ddod â phobl i berthynas fyw â'r Arglwydd Iesu Grist. Roedd arwyr lleol yr ardal fel Gwilym Hiraethog a William Salesbury yn bobl oedd yn adnabod Iesu Grist, Mab Duw.

Sut mae rhywun yn dod i berthynas hefo Iesu Grist? Un o fy hoff hanesion yn y Testament Newydd ydy pan mae dyn o'r enw Nicodemus yn dod at Iesu gan ofyn iddo: 'Rabbi, fe wyddom iti ddod oddi wrth Dduw; ni allai neb wneud yr arwyddion hyn yr wyt yn ei gwneud oni bai fod Duw gydag ef.' (Ioan 3:2). Ond, mae Iesu Grist yn troi at Nicodemus a dweud un o'r pethau mwyaf rhyfeddol sydd erioed wedi cael ei ddweud: 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyf, oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw.' Am ddatganiad trawiadol! Er mwyn i ni ddod i nabod Duw mae'n rhaid i ni gael ein 'geni o'r newydd'.

Mae'r Beibl yn dysgu ein bod ni yn methu ymateb i Dduw fel yr ydym oherwydd ein bod yn 'farw' yn ein pechod. Pechod ydy'r holl bethau rydym wedi gwneud sy'n groes i beth mae Duw eisiau. Mae Paul yn dweud, 'am fod pawb wedi pechu. Does neb wedi gallu cyrraedd safon berffaith Duw...' (Rhufeiniaid 3:23) Mae'n pechod ni yn ein hatal rhag cyrraedd y Duw perffaith. Oherwydd ein pechod, mae'n rhaid inni 'gael ein geni o'r newydd.'

Sut ydym ni'n cael ein 'geni o'r newydd?' Wel, dywed Ioan 3:16: 'Do, carodd Duw'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Trwy droi cefn ar ein pechod a chredu yn Iesu Grist fel yr un fu farw ar y groes a thalu'r pris am ein pechodau rydym yn cael ein geni o'r newydd. Trwy gredu yn Iesu Grist 'da ni'n dod i nabod Duw a dod i berthynas gydag Ef. Am newyddion gwerth ei ddathlu! Dwi'n gobeithio'n fawr y caf eich cyfarfod yn ystod fy nghyfnod yma!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwilym

Darlleniad Wythnos Nesaf

Effesiaid 4:1-13 (BCND tud.213 / BCN: tud.195)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 21^{ain}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 24^{ain}
- **Adnabod Cymdeithasol** – Taith Gerdded hamddenol. Byddwn yn cyfarfod am 6.30 ym maes parcio Capel Cefn Meiriadog ac yn gadael y rhan fwyaf o'r ceir yno! Felly, os na fyddwch yn medru cyrraedd mewn pryd, plis ffoniwch Mair er mwyn i rywun aros amdanoch (07900 627536). Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.
- Iau – 25^{ain}
- Cynhelir y **Cwrdd Chwarter** am 6.45 yn festri Capel Lôn Swan, Dinbych pryd y bydd y Parch. Casi Jones (Swyddog Cynnal ac Adnoddau'r Undeb) yn arwain sesiwn: 'Mentro ar Daith'.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf – 28^{ain}
SUL Y FRO

i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

Dr Owain Edwards (Coleg y Bala)

Fe wneir casgliad arbennig tuag at Apêl Nepal yn ystod yr oedfa.

Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mari Jones yn Llanycil i gael picnic a chyfle i gymdeithasu, cyn cael tro o gwmpas y Ganolfan.
(* Mae angen yr enwau wythnos ymlaen llaw – gwelwch y dudalen gefn.*)

Parcio: Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, os gwelwch yn dda, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

Cadair Olwyn: Os dymunwch ddefnyddio'r gadair olwyn sydd yn y capel, rhowch wybod i Mair ymlaen llaw neu un o'r rhai fydd yn y cyntedd yn eich croesawu.

Oedfa o Fawl am 3:00

Cyn inni droi am adref, bydd **Joseff Edwards** yn arwain oedfa yng Ngholeg y Bala, a bydd darpariaeth yno hefyd i'r plant. Croeso i bawb!

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 21^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00 a bydd Edward ac Anwen yn cyflwyno Gwilym Elwy i gael ei fedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul yma – 21^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
Llun – 22^{ain} Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Eglwys Hiraethog yn y Granar am 8.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 21^{ain} Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 21^{ain} Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Henllan a Groes

Sul yma – 21^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00. Ar ôl y gwasanaeth, bydd yr aelodau'n mynd ar bererindod ac yn cael cinio yn yr Eagles, Llanuwchllyn, cyn mynd ymlaen i Ganolfan Byd Mari Jones. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yno am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 21^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.